# YMATEB I FERN HILL gan DYLAN THOMAS, fersiwn Gymraeg T.JAMES JONES

## AMCANION:

Amcan y gyfres hon o 4 gwers yw rhoi cyfle i ddysgwyr:

- Wrando'n astud ar farddoniaeth yn cael ei llefaru
- Datblygu a mynegi eu hymateb personol i ystyr darn o farddoniaeth enwog drwy ymateb llafar/ysgrifenedig a chreadigol
- Ymateb i effeithiau sain a gweledol mewn darn enwog o lenyddiaeth
- Gwneud cysylltiadau rhwng llenyddiaeth a'u profiadau eu hunain
- Meithrin hyder wrth ymateb i destun heriol
- Datblygu sgiliau darllen gofalus, gan ddangos dealltwriaeth o nodweddion arddull i greu effeithiau gwahanol
- Dynwared a dehongli  cerdd mewn gwahanol gyfryngau

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddatblygu amcanion y fframwaith fel hyn:

## LLAFAREDD

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, *e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy*
- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

## DARLLEN

- defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:

  – tarddiadau a theuluoedd geiriau
  – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
  – cynnwys a chyd-destun

  i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
- defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
- defnyddio'r rhyngrwyd yn llawn gan ddethol yn ofalus er mwyn diweddaru, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt

- chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a'u defnyddio i ehangu dealltwriaeth
- dod i ddeall testunau'n llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi

## YSGRIFENNU

- gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu
- gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol a'i ailddrafftio
- ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir
- ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, *e.e. yr hanner colon, y colon a chromfachau*
- defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

# GWERS 1

**'FERN HILL' – MYNEGI YMATEB CYNTAF**
**CYFLWYNIAD**

Mae hafau hapus plentyndod yn gyfnod sydd wedi ysbrydoli llawer o feirdd a llenorion ac artistiaid. All y dosbarth awgrymu teitlau unrhyw lyfrau neu ffilmiau neu weithiau celf y maen nhw wedi dod ar eu traws sy'n cyfleu y cyfnod hwn? e.e. cerddi T. Llew Jones, lluniau Jac Jones.

**GWAITH PÂR**

Sut deimlad oedd i hafau eich plentyndod? Beth yw eich atgofion cryfaf chi o'r cyfnod hwn? Trafodwch gyda'ch partner gan lunio diagram corryn o rhyw 5-8 atgof cryf, gan geisio bod yn fanwl yn hytrach na dim ond yn gyffredinol – hynny yw, teimlad gwlith y bore dan fodiau eich traed wrth ddod allan o'r babell, neu arogl bacwn yn ffrio yn y garafán, yn ogystal â'r pacio a'r paratoi a'r siwrne hir.

Yna dewiswch eich un atgof gorau i'w rannu gyda'r dosbarth a gosod y rhain i gyd ar y bwrdd er mwyn creu argraff o hafau'r dosbarth.

**GWAITH DOSBARTH**

Esboniwch i'r dosbarth mai testun y wers yw cerdd enwog Dylan Thomas, *Fern Hill*. Fferm yw Fern Hill, yn Llangain ger Caerfyrddin lle'r arferai Dylan Thomas fynd yn blentyn ar ei wyliau at ei anti Annie, a bod y gerdd yn seiliedig ar ei atgofion o fod yn blentyn ifanc yn mwynhau rhyddid ei wyliau yno. Fe ysgrifennodd y Prifardd T.James Jones fersiwn o'r gerdd yn Gymraeg, gan ddefnyddio ei dafodiaith naturiol ef ei hun o ogledd sir Gaerfyrddin. Defnyddiwch y pwynt pŵer i gyfleu'r wybodaeth yma. Nodwch fod y gerdd hon yn arbennig o enwog am ei harddull gyfoethog o seiniau, mewn geiriau a rhythm, ac er mwyn ei gwerthfawrogi'n llawn, mae angen clywed y gerdd yn cael ei hadrodd – dyna oedd bwriad y bardd. Gwrandewch ar Dylan Thomas yn darllen ychydig ohoni - https://www.youtube.com/watch?v=ZBWWKyIALx0 yn Saesneg. Yna gwrandewch ar ddarlleniad ohoni yn Gymraeg, a dilynwch y geiriau.
Nodwch wrth fynd unrhyw eiriau sy'n ddieithr i chi.

Y cwestiwn fydd yn cael ei ofyn i chi ar ôl y darlleniad yw – cerdd am beth yw hon yn eich barn chi? Pa argraff sy'n cael ei chreu yn eich dychymyg chi wrth wrando, **er nad y'ch chi yn deall pob llinell ohoni, efallai?**

**GWAITH PÂR**
Wedi'r darlleniad, gwaith pâr i edrych eto ar 2 bennill agoriadol y gerdd yn fras ac yna cynnig syniadau i ymateb i'r cwestiwn uchod, mewn trafodaeth ddosbarth.
Mynd trwy eirfa ddieithr, gan anodi'r gerdd, er mwyn sicrhau dealltwriaeth.

# GWERS 2

**‘FERN HILL’ – EDRYCH AR Y DELWEDDAU**
**CYFLWYNIAD**

Cyflwyniad i atgoffa’r dosbarth am y gerdd, ac i grynhoi eu hymateb i’r wers flaenorol. Pwysleisio mai un o dechnegau Dylan Thomas oedd pentyrru delweddau. Cyfaddefodd ei hunan mai un o’r pethau fyddai yn ei wneud fyddai mynd am un ddelwedd, wedyn taflu un arall ati, yna ychwanegu un arall, fel bod y cyfan yn creu darluniau oedd weithiau’n atseinio yn dda gyda’i gilydd, weithiau’n tynnu’n groes a chreu gwrthgyferbyniadau rhyfedd i’r glust a’r llygad.

**GWAITH GRŴP**

Edrychwch yn ofalus eto ar y ddau bennill cyntaf, gan geisio crynhoi’n syml yr hyn y maen nhw’n ei ddisgrifio am deimladau a phrofiadau’r bardd yn blentyn ar ei wyliau trwy gyfrwng delweddau. Rhannwch y dasg yn deg rhwng pawb.
Pa luniau sy’n cael eu creu? Llenwch y daflen waith gan edrych yn arbennig am ddelweddau sy’n adlewyrchu byd natur, amser, teimladau a bywyd y fferm.
Rhowch gylch o gwmpas geiriau sy’n cyfleu teimlad cadarnhaol.

**GWAITH DOSBARTH**

Trafodaeth ddosbarth ar y syniadau sydd yn y gerdd, yn unol â dealltwriaeth y grŵp. Cwestiwn ymestynnol: edrychwch ar y llinellau clo enwog – beth yw ystyr ‘amser a’m daliodd yn ir a marwol, er i mi ganu yn fy nghadwyni fel y don’? Beth mae Dylan Thomas yn ei ddweud am Amser – sut gall rhywun fod yn ir a marwol?

**GWAITH UNIGOL**

Pa ddelweddau sy’n eich plesio chi? Cofnodwch nhw ar y daflen waith ac ychwanegwch at eich atgofion hafaidd, gan geisio datblygu eich syniadau yn sgil darllen y gerdd.

Mae taflen waith amlddewis i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr llai hyderus.
Gall dysgwyr mwy hyderus ddewis darllen mwy o’r gerdd a dewis ohoni.

**GWAITH PELLACH**

Edrychwch ’nôl ar eich syniadau cyntaf am eich atgofion o’ch plentyndod. Allwch chi ychwanegu neu adeiladu ar eich syniadau a chreu delweddau mwy trawiadol?

# GWERS 3

**’FERN HILL’ – DEALL NODWEDDION ARDDULL**
**CYFLWYNIAD**

Roedd Dylan Thomas yn nodedig am ei arddull gyfoethog oedd yn creu naws arbennig wrth ddarllen y cerddi’n uchel. Byddai’n defnyddio nifer o nodweddion arddull i greu gwead o sain, gan bentyrru rhain yn un pentwr o effeithiau pwerus. Mae rhai wedi dadlau bod dylanwad y gynghanedd ar waith Dylan Thomas, a gallwch wrando ar y Prifardd Mererid Hopwood yn esbonio hyn mewn clip ar http://www.bbc.co.uk/programmes/p01yd500

**GWAITH DOSBARTH**

Darllen 3ydd pennill o’r gerdd i’r dosbarth – Roedd amser ar redeg drwy’r haul hir, hyfryd... – i ganiatáu i’r dosbarth wrando a dilyn. Yna gofyn iddyn nhw ddarllen y pennill i’w gilydd mewn parau, er mwyn cael y profiad o yngan y llinellau.
Ennyn trafodaeth fer ar ba fathau o effeithiau sain oedd i’w clywed, er enghraifft –
Cytseinedd – haul hir, hyfryd; ffyrniced a phorfa; sêr syml, ffarm i ffwrdd
Odlau – ddyfrllyd hyfryd; simneiau/stablau/ceffylau
Rhythm – a’r perci gwair gyfuwch a’r tŷ; ai’r gwdihŵs a’r ffarm i ffwrdd

**GWAITH PÂR**

I sicrhau eich bod yn deall beth yw ystyr y termau am y technegau barddol, gweithiwch gyda’ch gilydd i lenwi y daflen waith yn gywir. Yna, trafodaeth ddosbarth i sicrhau cywirdeb.

**GWAITH GRŴP**

Rhannwch yn 6 grŵp, a phob un i gymryd cyfrifoldeb am un pennill ar ddarn o bapur lliw, i roi lle digonol i gydweithio. Chwiliwch am dystiolaeth o ddefnydd T. James Jones o’r nodweddion barddol yma, gan anodi eich pennill fel grŵp. Ceisiwch ganfod un enghraifft o bob nodwedd os gallwch.
Ymateb ’nôl gerbron y dosbarth ar ddiwedd y dasg, gan osod y penillion o gwmpas y dosbarth.

**GWAITH YSGRIFENNU**

Defnyddiwch eich syniadau blaenorol chi am atgofion hafau eich plentyndod. Arbrofwch gyda chreu brawddegau amdanyn nhw sy’n cynnwys rhai o’r nodweddion arddull uchod.
Gall dysgwyr abl roi cynnig ar lunio’r cyfan yn gerdd syml, gan geisio efelychu Dylan Thomas.
Gall dysgwyr llai galluog lunio paragraff ysgrifenedig syml yn disgrifio eu hatgofion am eu plentyndod yn yr haf, neu linell gytseiniol i hebrwng cyfres o ddelweddau.

# GWERS 4

## 'FERN HILL' – YMATEB CREADIGOL

Mae cerddi Dylan Thomas wedi ysbrydoli artistiaid o bob math i geisio cyfleu naws ei eiriau mewn cyfryngau gwahanol. Gallwch weld enghreifftiau trwy roi term chwilio megis *Fern Hill Dylan Thomas art* i mewn i beiriant chwilio.
Edrychwch ar arddull collage trwy roi *mixed media art images* i mewn i Google, er mwyn ysbrydoli syniadau.

## GWEITHGAREDD CREADIGOL

Gan ddefnyddio papurau lliw, cylchgronau, llythrennu â llaw, ffotograffau, llinellau a geiriau o'r gerdd, crëwch ddarn creadigol ar ffurf collage, sy'n crynhoi eich argraff chi o'r gerdd *Fern Hill*, neu rannau ohoni, sydd wedi creu argraff arnoch chi.
Gellir gwneud hyn fel gwaith unigol neu grŵp, yn ôl cymhelliant a hoff ddulliau gweithio'r dysgwyr.
Defnyddio'r gwaith terfynol i greu arddangosfa ddosbarth neu adrannol. Gellir gosod maint penodol e.e. 15cmx15cm i bob un i greu un cwilt gweledol terfynol.

## TASG YMESTYNNOL

Gall dysgwyr abl ddatblygu eu hatgofion plentyndod eu hunain ar ffurf cerdd neu ddarn rhyddiaith sy'n atseinio technegau Dylan Thomas, yna cyflwyno naws eu gwaith ar ffurf collage eu hunain.

## TASGAU PELLACH

- Ysgrifennwch ddyddiadur Dylan Thomas ar un o ddyddiau ei wyliau ar y fferm.
- Ysgrifennwch lythyr neu gerdyn post Dylan Thomas adre at ei rieni yn Abertawe o Fern Hill yn ystod ei wyliau.
- Ysgrifennwch ddarn disgrifiadol llawn naws am leoliad arbennig yn eich atgofion chi am wyliau haf.
- Mae Fern Hill ger pentref Llangain, ar gyrion Caerfyrddin. Ymchwiliwch i'r ardal, a chrëwch boster sy'n cyfuno gwybodaeth a lluniau ac ambell linell o'r gerdd sy'n cyfleu naws y lle, yn eich barn chi.